# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 4 Medi 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, S.A. Curry, I.W. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, D. Jones, H.I. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips and J.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr A.Vaughan Owen a fu'n annerch y Pwyllgor mewn perthynas â chais cynllunio W/34933.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
K. Byrne, Cyfreithiwr Cynorthwyol
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio)
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 11.15 am - 12.20 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J.A. Davies, A.C. Jones a G.B. Thomas

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| D. Phillips | 4.1 - Cais Cynllunio W/37471 – Estyniad ar ochr y llawr cyntaf ac estyniad unllawr yn y cefn, 42 Maes Abaty, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0HQ | Buddiant Busnes Personol |

## 3. W/34933 - ADEILADU 20 O DAI PRESWYL AR WAHÂN AR GYFER Y FARCHNAD BREIFAT GYDA GAREJIS YN RHAN O'R TAI, A 2 DY PÂR FFORDDIADWY, POB UN Â LLE PARCIO A DARN PREIFAT O DIR AR Y LLAIN; GWELLA A LLEDU'R FFORDD FABWYSIEDIG BRESENNOL AC ADEILADU FFYRDD MABWYSIEDIG NEWYDD AR DIR SYDD WEDI'I GLUSTNODI YN Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR GYFER DATBLYGIAD PRESWYL YM MRON YR YNN, DREFACH, LLANELLI, SA14 7AH

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) at ymweliad preifat â'r safle gan y Pwyllgor yn gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 6.1 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2018) a drefnwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle a threfniadau o ran mynediad. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio,

ynghyd â'r atodiad a ddosbarthwyd yn y cyfarfod, a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghori a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol oedd yn berthnasol i'r asesiad o'r cais.

Daeth sylw i law a wrthwynebai'r cais ac a ailbwysleisiai'r gwrthwynebiadau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio mewn perthynas â lleoli'r ffordd fynediad yn agos at dro ar y B4310 a'r ysgol gynradd gyfagos ynghyd â'r potensial i bobl ddefnyddio'r ffordd fel llwybr i osgoi traffig rhwng Heol Cwm-mawr a Heol Blaenhirwaun. Codwyd pryderon ychwanegol ynghylch yr effaith bosibl y gallai'r traffig ychwanegol a grëir gan y datblygiad ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd/cerddwyr ar ystad Bron yr Ynn a'r lleoedd parcio ar y stryd presennol ar gyfer y byngalos sy'n wynebu'r safle datblygu, ynghyd â cholli'r llecyn gwyrdd presennol i hwyluso adeiladu ffordd fynediad yr ystad newydd. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i sicrhau cyfraniad ariannol tuag at ddarparu cyfleusterau chwarae yn yr ardal.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y trefniadau arfaethedig o ran y priffyrdd ac arafu traffig sydd i'w cyflwyno fel rhan o'r datblygiad arfaethedig a'r farn oedd y dylent gynnwys gosod 'Arwydd Ymateb i Yrwyr' sy'n fflachio ar ochr ddwyreiniol y B4310 cyn y mynediad newydd arfaethedig a dechrau'r terfyn cyflymder o 20mya.

Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu a'r Peiriannydd Cynorthwyol - Cydgysylltu Cynllunio i'r materion a godwyd.

**PENDERFYNWYD caniatáu Cais Cynllunio W/34933 yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a'r amod ychwanegol a oedd yn mynnu bod Arwydd Ymateb i Yrwyr sy'n fflachio yn cael ei gosod.**

## 4. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**4.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **W/37471** | **Estyniad ar ochr y llawr cyntaf ac estyniad unllawr yn y cefn, 42 Maes Abaty, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0HQ**<br><br>(NODER: Roedd y Cynghorydd D. Philips wedi datgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach a gadawodd y Siambr tra oedd y cais yn cael ei drafod gan y Pwyllgor ac ni wnaeth gymryd rhan yn y penderfyniad yn ei gylch) |

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**